






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r Cyngor

22 Mehefin 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

22 Mehefin 2021

Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Ar 17 Mehefin, mae nifer yr achosion yng Nghymru wedi cynyddu i 31 o achosion am bob 100,000 o'r boblogaeth**, sef cynnydd o 56% ers yr wythnos flaenorol. Erbyn hyn mae bron bob awdurdod lleol yng Nghymru yn gweld **cynnydd parhaus yn niferoedd yr achosion ac yn nifer y profion positif**, er bod hynny'n cychwyn o lefel isel. Mae nifer yr achosion wedi **cynyddu** ym mhob grŵp oedran bron, yn enwedig yn y grwpiau oedran hynny sydd wedi'u cynnwys i raddau llai yn y rhaglen frechu hyd yma.
- **Mae amcangyfrif diweddaraf y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) o'r rhif atgynhyrchu (Rt) ar gyfer Cymru wedi codi i 1.1 i 1.4** (cyfwng hyder o 90%), o'i gymharu â 1.0 i 1.4 yr wythnos flaenorol. Mae'r gyfradd twf wedi aros yr un fath ar **0% i +5% y dydd**. *(Noder bod amcangyfrifon SAGE o'r rhif Rt a'r gyfradd twf yn dangos lefelau trosglwyddo COVID-19 2 i 3 wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw.)*
- Mae amcangyfrif diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru o'r rhif Rt yng Nghymru gyfan bellach rhwng **1.6 ac 1.8** (cyfwng hyder o 95%), gan gynyddu ychydig o 1.5 i 1.7 yr wythnos flaenorol. **Mae'r amser dyblu ar gyfer Cymru gyfan bellach yn 7.6 diwrnod** (cyfwng hyder o 95%: 6.1 i 10.3).
- Ar lefel ranbarthol, mae amcangyfrifon lechyd Cyhoeddus Cymru yn ôl bwrdd iechyd yn dangos mai yn Aneurin Bevan a Phowys y mae'r rhif Rt isaf, sef 1.5 Rt ar gyfer y ddau ac amser dyblu o 5.7 diwrnod ac 11.2 diwrnod yn y drefn honno. Mae'r amcangyfrifon uchaf yng Nghwm Taf a Betsi Cadwaladr gyda rhif Rt o 2.1 a 2.4 ac amser dyblu o 6.2 diwrnod a 5.6 diwrnod, yn y drefn honno. Mae'r niferoedd ym Mhowys yn isel ac felly dylid trin yr amcangyfrifon yn ofalus. *(Noder bod llai o oedi yn yr amcangyfrifon hyn na rhai SAGE, a'u bod yn dangos y lefelau trosglwyddo tua 1 wythnos yn ôl).*
- Er nad oes cynnydd amlwg wedi bod eto yn nifer y rhai sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd COVID-19 yng Nghymru, mae'r tueddiadau yn Lloegr yn dechrau awgrymu cynnydd yn y galw am ofal iechyd, sy'n debygol o barhau os bydd yr achosion yn parhau i gynyddu.
- Er y bydd y niferoedd yn uwch oherwydd bod data'n dal i gael eu mewnbynnu, am 22:00 ar 21 Mehefin roedd 2,239,271 dos cyntaf a 534,373 ail ddos o frechlyn COVID-19 wedi'u rhoi yn Nghymru a'u cofnodi yn System Imiwneiddio COVID-19 Cymru. Mae dadansoddiad lechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos, er bod y bylchau anghydraddoldeb rhwng grwpiau ethnig ac economaidd gymdeithasol mewn oedolion hŷn, o ran y nifer sydd wedi cael o leiaf un dos o frechlyn COVID-19, wedi lleihau ers mis Mawrth, mae'r anghydraddoldeb mewn grwpiau iau wedi tyfu a gallai hyn fod yn cyfrannu at y ffaith fod y grwpiau hyn yn fwy amlwg o ran trosglwyddo'r feirws.

- Mae dadansoddiad diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos, rhwng 7 a 10 Mehefin, bod canran y bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff yn parhau i gynyddu, gydag 88.7% o'r **boblogaeth 16+ oed** yng Nghymru wedi profi'n bositif am wrthgyrff COVID-19, er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod ganddynt imiwnedd rhag cael eu heintio.
- Ar gyfer yr wythnos 6 i 12 Mehefin 2021, amcangyfrifir bod gan **0.07%** o'r boblogaeth gymunedol COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.02% i 0.14%). Mae hyn yn cyfateb i tua **1 person ym mhob 1,500** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 4,340 i 1 o bob 720), neu **2,000** o bobl yn ystod y cyfnod hwn.
- Ar 21 Mehefin, mae'r amrywiolyn Delta yn parhau i gynyddu'n gyflym a dyma'r amrywiolyn amlycaf yng Nghymru, gyda **599 (+284 ers yr adroddiad diwethaf)** wedi cadarnhau drwy genomeg ac achosion tebygol wedi'u canfod. Ar y llaw arall, yn ystod yr un cyfnod gwelwyd 56 o achosion o'r amrywiolyn Alfa (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yng Nghaint).
- Mae amcangyfrifon lechyd Cyhoeddus Lloegr o fantais twf Delta o'i gymharu ag Alfa wedi lleihau yn eu [briff technegol](#) diweddaraf. Amcangyfrifir ei fod **40-60%** yn uwch o'i gymharu â'r 40-80% a nodwyd yr wythnos diwethaf. O ran amrywiolyn Delta, amcangyfrifir bod effeithiolrwydd brechlynnau yn erbyn clefyd symptomatig yn sylweddol is gydag un dos o'r brechlyn, ond bod y gwahaniaeth hwn yn llai os yw person wedi cael dau ddos. Mae'r brechlyn yn effeithiol iawn o ran arbed pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty, sef >90% ar gyfer Alfa a Delta ar ôl cael dau ddos.
- Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint posibl y niwed a manteision rhoi amser i'r rhaglen frechu roi'r brechiadau'n llawn i fwy o'r boblogaeth, consensws SAGE oedd argymhell oedi o bedair wythnos i gamau llacio 21 Mehefin yn Lloegr. Amcangyfrifir y byddai oedi o 4 wythnos yn lleihau mint unrhyw ymchwydd o tua thraean i hanner y nifer uchaf o dderbyniadau dyddiol i'r ysbyty. Mae'r Gell Cyngor Technegol wedi cyhoeddi [papur](#) sy'n cynghori y dylid oedi'r camau llacio am un cylch adolygu (21 diwrnod).
- Mae lefelau'r achosion COVID-19 a welwyd, derbyniadau i'r ysbyty a derbyniadau i unedau gofal dwys, marwolaethau a defnydd gwelyau mewn ysbytai yn llawer is na'r lefelau a amcangyfrifwyd yn y senario waethaf y mae'n rhesymol ei thybied ar Ebrill 2021 ac maent yn fras ar y lefelau a amcangyfrifwyd yn y senarios mwyaf tebygol ar Ebrill 2021. Mae'r lefelau'n dal yn isel ac nid ydynt yn dangos arwyddion o gynyddu ar hyn o bryd. Noder nad yw'r senarios hyn yn ystyried amrywiolyn Delta a bod y modelu'n cael ei ddiweddarau i adlewyrchu effaith bosibl yr amrywiolyn hwn sy'n peri pryder.